Tîm Cefnogi'r Teulu



Sut medrwn ni helpu?

Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych

CYNGOR Sir Ddinbych Denbighshire COUNTY COUNCIL

Mehefin 2009

Ynglŷn â thîm cefnogi'r teulu

Rydym yn cynnig cefnogaeth ar dai i deuluoedd sy'n drigolion yn Sir Ddinbych. Byddwn yn rhoi i chi'r math o help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch er mwyn medru cadw daliadaeth eich cartref.

Ariennir **tîm cefnogi'r teulu** gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a chan raglen Cefnogi Pobl. Rydym wedi ein lleoli o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych, yn yr adran Gwasanaethau Plant a Theuluoedd.

Byddwch wedi eich cyfeirio atom ni oherwydd bod angen cefnogaeth arnoch, ac rydych yn bodloni'r meini prawf.

supportingpeople
supporting independence

Ein nod

Ein nod yw galluogi i denantiaid gadw eu tenantiaethau, datblygu'r sgiliau maent eu hangen i reoli eu cartrefi eu hunain, a byw'n annibynnol.

Ein nodau yw:

- rhwystro digartrefedd trwy ddarparu cefnogaeth ar dai sy'n canolbwyntio ar y person
- cefnogi tenantiaid tra byddant yn aros mewn llety dros dro
- helpu tenantiaid i setlo mewn llety parhaol a'u rhwystro rhag mynd yn ddigartref eto, a
- helpu tenantiaid i ddysgu a gwella sgiliau byw'n annibynnol.

Eich gweithiwr cefnogi teuluol

Bydd gennych **weithiwr cefnogi teuluol** penodol a fydd yn sicrhau eich bod yn derbyn y gefnogaeth rydych ei hangen gennym ni. Gall eich gweithiwr cefnogi teuluol eich helpu i gysylltu gyda chyrff eraill a fedr gynnig cefnogaeth i chi os yw hynny'n briodol.

Creu eich cynllun cefnogi

Bydd eich **gweithiwr cefnogi teuluol** yn cysylltu â chi pan gewch eich cyfeirio atom. Byddant yn trefnu cyfarfod gyda chi, a bydd hyn fel rheol yn eich cartref teuluol.

Pan fyddwch yn cyfarfod eich gweithiwr cefnogi teuluol, byddant yn trafod **cynlluniau cefnogi** gyda chi. Byddant yn trefnu cyfarfod gyda chi lle medrwch weithio gyda'ch gilydd i greu eich cynllun cefnogi unigol.

Mae cynllun cefnogi yn set o amcanion a nodau rydych yn ceisio eu cyrraedd, a'r pethau rydych angen help gyda hwy. Gall y cynllun cefnogi gwreiddiol gynnwys rhai o'r meysydd cefnogi canlynol.

- Helpu sefydlu eich tenantiaeth
- Datblygu sgiliau cyllidebu, domestig a sgiliau bywyd
- Help gyda hawlio budd-daliadau

Help gyda sefydlu eich tenantiaeth

Medrwn helpu gyda phethau fel:

- cael dodrefn trwy gyfrwng ceisiadau grantiau gofal cymunedol neu brosiectau dodrefn
- esbonio telerau cytundeb tenantiaeth neu drefniadau prydles
- cwblhau ffurflenni budd-dal tai a budd-dal treth y cyngor
- trefnu cysylltu eich nwy, trydan a ffôn
- cysylltu â gweithwyr addysg ac ymwelwyr iechyd, a
- darparu cyngor cyffredinol ar unrhyw fater tai, cymdeithasol, cyfreithiol neu ariannol a allai effeithio eich tenantiaeth.

Help gyda sgiliau cyllidebu, domestig a sgiliau bywyd

Rydym hefyd yn cynnig cyngor a chefnogaeth gyda:

- chysylltu ag asiantaethau cyngor ar ddyledion
- cadw eiddo mewn cyflwr da ac wedi ei atgyweirio
- cyllidebu ar sail un-i-un
- adnabod a datrys problemau a allai fod yn effeithio eich hyder personol neu ymddygiad
- cysylltu ag ystod o asiantaethau a fedr ddarparu cyngor arbenigol neu gefnogaeth, a
- eich helpu chi i weithio gydag asiantaethau ffurfiol.

Help gyda hawlio budd-daliadau

Medrwn eich helpu chi i hawlio budd-daliadau lles trwy gynnig:

- help gyda llenwi ffurflenni
- cyfeiriad at wasanaethau hawliau lles i sicrhau eich bod yn cael yr holl fudd-daliadau y dylech eu derbyn
- cefnogaeth i gleientiaid hawdd eu niweidio, er mwyn ôl-ddyddio hawliadau budd-dal, a
- chefnogaeth i apelio yn erbyn penderfyniadau.

Eich cynllun cefnogi

Mae eich cynllun cefnogi a'ch cofnodion achos wedi eu diogelu gan Bolisi Cyfrinachedd Cyngor Sir Ddinbych a Deddf Gwarchod Data 1998. Gellir ond rhannu gwybodaeth amdanoch chi gyda gweithwyr eraill ac asiantaethau sy'n rhwymedig gan yr un rheoliadau.

Caiff eich cynllun cefnogi ei adolygu o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod pan fyddwch yn derbyn cefnogaeth gennym ni. Cewch ofyn am adolygiad ar unrhyw adeg os ydych yn teimlo nad yw'r cynllun yn diwallu eich anghenion. Bydd adolygiad yn ein helpu ni i weld sut mae pethau'n mynd ac a ydych angen ein cefnogaeth o hyn. Darperir y gwasanaeth am hyd at ddwy flynedd.

Cofiwch y medrwch ofyn am adolygiad; nid oes angen aros nes bydd eich gweithiwr cefnogi teuluol yn awgrymu hynny.

Eich hawliau

Pan fyddwch yn derbyn cefnogaeth tai gennym ni, mae gennych hawl i:

- gael eich trin yn gwrtais a chyda pharch bob amser
- gymryd penderfyniad ynglŷn â'r math o gefnogaeth rydych ei heisiau
- gael parchu eich preifatrwydd a'ch cyfrinachedd
- gael parch i'ch anghenion diwylliannol, hiliol ac ysbrydol
- adolygu'r cynlluniau a'r gefnogaeth rydych yn eu cael, ac
- gwyno os nad ydych yn cael yr help a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnoch, neu os ydych yn teimlo bod unrhyw rai o'r hawliau uchod yn cael eu cymryd oddi arnoch.

Beth rydym yn ei ddisgwyl gennych chi

Rydym yn disgwyl i chi:

- gyfarfod gyda'ch gweithiwr cefnogi teuluol pan fyddwch wedi gwneud trefniadau i'w cyfarfod
- peidio â defnyddio cyffuriau neu alcohol cyn cyfarfod gyda'ch gweithiwr cefnogi teuluol, a
- thrin gweithwyr cefnogi teuluol gyda pharch bob amser.

Sylwadau, canmoliaeth a chwynion

Os hoffech wneud sylw ar, gwyno ynglŷn neu ganmol unrhyw rai o'r gwasanaethau a ddarperir gennym, medrwch gysylltu â'r **tîm sylwadau a chwynion**.

Ffôn:	0800 032 1099
Ffacs:	01824 706660
Testun:	07917174038
E-bost:	ssdcomments@denbighshire.gov.uk
Gwefan:	www.sirddinbych.gov.uk

Neu medrwch ysgrifennu, neu alw heibio:

Tîm Sylwadau a Chwynion
64 Ffordd Brighton
Y Rhyl
Sir Ddinbych
LL18 3HN

Sut medraf gael gwybodaeth bellach?

Medrwch gysylltu gyda'ch **gweithiwr cefnogi teuluol** am wybodaeth a chyngor. Medrwch gysylltu â nhw trwy ein **tîm cyswllt cyntaf.**

Ffôn:	01824 712900
Ffacs:	01824 712888
Testun:	07917 597993
E-bost:	timcyswlltcyntaf@sirddinbych.gov.uk
Gwefan:	www.sirddinbych.gov.uk

Neu medrwch ysgrifennu atynt neu alw heibio eu swyddfeydd yn:

Tîm Cyswllt Cyntaf
64 Ffordd Brighton
Y Rhyl
LL18 3HN

Tîm Cyswllt Cyntaf
Neuadd y Sir
Ffordd Wynnstay
Rhuthun
LL15 1YN

Am fersiwn o'r daflen hon yn Braille, print bras neu iaith neu fformat arall, ffoniwch am ddim ar 0800 243 980.